## Yr her:

Rydym ni mewn argyfwng byd-eang ond yn lwcus o'r bobl pwysig/allweddol sydd yma i'n helpu. Pwy yw'r bobl pwysig yma sydd o hyd yn barod i'n helpu? Beth am gasglu gwybodaeth a ffeithiau amdanynt?



### Pwyntiau trafod i rieni:

- Sawl swydd allweddol sydd?
- Beth yw'r swyddi yma?
- Pa un hoffech chi fod?
- Beth maent yn gwisgo?
- Oes aelod o'r teulu â swydd allweddol?

Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn
Nid da lle gellir gwell

# Cynllun pythefnos: Cymru (Bl 1 & 2)

## Rhaid gwneud...

| | | |
|---|---|---|
| • Dysgu geiriau sillafu wythnosol. Mae'r geiriau ar Spell j2blast i'w ymarfer!<br>• Darllen yn reolaidd– cofiwch drafod yr hyn a ddarllenoch – cymeriadau, rhagfynegiadau, trefnu digwyddiadau, ail-ddweud y stori, chwilio am ystyr geiriau anghyfarwydd. | • Ymarfer tablau mathemateg (Bl 1 - tabl 1, 2, 5 a 10/Bl2 - tablau 1, 2, 5 a 10 i ddechrau a thabl 3 fel her!)<br>• Mathemateg - Bondiau rhif hyd at 100 - adio a thynnu.<br>• Adnabod a chyfrif cyfansymiau arian<br>• Adnabod amser e.e. o'r gloch, hanner awr wedi, chwarter awr wedi a chwarter i. | • Joe Wicks - sesiwn fyw ar 'YouTube' am 9:00yb<br>• Cofiwch ofyn am ganiatad rhieni i fynd ar 'YouTube')<br>• Cosmic Kids Yoga - sesiwn ar 'YouTube'<br>• Sgwrsio gyda'ch rhieni am eich diwrnod a sut rydych yn teimlo.<br>• Beth am helpu o amgylch y tŷ? e.e. gwneud eich gwely, gosod y bwrdd, helpu yn yr ardd ayyb. |

## Dylech wneud...

| Llythrennedd | Rhifedd | Thema |
|---|---|---|
| Darllenwch y stori 'Charlie the firefighter' a trafodwch beth ddigwyddodd, y cymeriadau ag ati. Pwy oedd eich hoff gymeriad? Beth oedd eich hoff rhan a pham? | Dewisiwch un weithiwr allweddol. Crëwch fodel 3D o gerbyd y person hynny e.e. injan dân, tractor, cwch achub, ambiwlans, fan post, lori sbwriel, fan archfarchnad ayyb. | Dewisiwch eich hoff weithiwr allweddol. Oes wisg ffansi gyda chi? Beth am chwarae rôl y gweithiwr allweddol yma? Beth am gynnwys aelodau o'ch teulu wrth chwarae rôl? |
| Meddyliwch am gymaint o swyddi allweddol a phosib. Cofiwch i gynnwys pobl sy'n ein helpu e.e. person lolipop ag ati. Nodwch rhain yn eich llyfrau neu ar HWB (Jit). | Dewisiwch eich hoff weithiwr allweddol. Dychmygwch mai chi yw'r person yma. Crëwch ddyddiadur amser yn cofnodi beth rydych yn gwneud yn ystod y dydd e.e. 7 y.b. Codi o'r gwely ac ymolchi, 7:15 y.b. Brecwast, 7:30 y.b. Gyrru/cerdded i'r gwaith ayyb. | Dyluniwch poster/carden o ddiolch ar gyfer ein gweithwyr allweddol. Cofiwch gynnwys 'Diolch am ein helpu ni'. Gwnewch yn siwr fod y poster/carden yn ddeniadol a lliwgar. |
| Ewch ati i greu poster 'yn eisiau' yn seiliedig ar berson/cymeriad mae'r heddlu yn chwilio amdano! Cofiwch gynnwys manylion pwysig amdanynt e.e. enw, llun, taldra, edrychiad a beth ddigwyddodd? Beth am gynnig gwobr? | Mae Joe Wicks yn helpu llawer o bobl yn ddyddiol i gadw'n heini! Gwnewch sesiwn ffitrwydd Joe Wicks am wythnos (5 diwrnod). Cyfrifwch a chofnodwch (os hoffech, creu graff ar HWB) eich curiad calon ar ôl pob sesiwn yn ddyddiol. Pa sesiwn oedd y fwyaf anodd/hawdd wrth edrych ar y canlyniadau? | Ewch ati i greu cwch achub gan ddefnyddio unrhyw ddeunyddiau naturiol/ailgylchu. Ydy'r cwch yn gallu arnofio? Neu ydy e'n suddo? Tynnwch luniau o'r cwch gyda phapur a phensil neu ar ipad/ffôn. Recordiwch beth wnaethoch chi ddenfyddio e.e. brigau, tops a poteli llaeth ayyb. |

## Gallaf wneud...

| | | |
|---|---|---|
| Heriau LEGO | Minecraft | Dawnsio gyda Oti Mabuse |
| Llyfrau sain David Walliams | Cymuned y Sgarlets– Sgiliau Mathemateg | PBSkids.org - Gemau Darllen i blant |
| Newsround – darllen y newyddio diweddaraf | Carol Vorderman – 'My Maths School' | BBC Bitesize |
| ACTIV-I-TI – ar lein o 1:00yp | Cip ar Fathemateg | Hour of Code |
| Science experiment | SGILIAU – gemau i'w chwarae adref/clwb ysgol ar Facebook | Gwefan TopMarks Mathemateg |
| Science Investigations – STEM website | Celf Helen Elliot – Pob dydd mercher a Gwener am3:00yp | Gwefan MathsFrame Mathemateg |
| stemsational.com | Orielodl – fideo cam wrth gam | mathsalamanders.com |

| | | |
|---|---|---|
| Adnoddau twinkl–Mynychwch y wefan am ddim<br>www.twinkl.co.uk/offer yn defnyddio côd<br>UKTWINKLHELPS<br>Zumba Kids | Criw Celf, Huw Aaron – pob dydd am 3y.p<br>Llifo'n Llawen – Yoga<br>Just Dance – 'Youtube' | Gwersi canu gyda Myleene Klass am 10:00 yb<br>Coginio gyda Jamie Oliver am 12:00 yp<br>Traed Bach Sionc (Busy Feet) - Youtube |